

## Cynilo a Benthycia

### Beth yw cyfraddau llog?

Os byddwch yn cynilo neu'n benthycia arian, mae angen i chi ystyried cyfraddau llog. Cyfraddau llog yw'r canrannau rydych chi'n eu talu neu'n eu hennill ar eich arian. Mae'r rhan fwyaf o'r banciau a'r cymdeithasau adeiladu yn gwneud elw drwy godi cyfraddau llog uwch ar bobl sy'n benthycia arian na'r hyn y maen nhw'n ei gynnig i bobl sy'n cynilo.

### Dyma enghraifft syml:

Mae rhywun yn **cynilo** £100 gyda llog o 4% y flwyddyn felly mae'r banc yn talu £4 iddo ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n gwneud ei falans newydd yn £104.

Mae rhywun arall yn **benthycia** £100 gyda llog o 7% y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae angen iddo dalu £100 i'r banc a £7 ychwanegol mewn llog.

Ond mae angen i chi ystyried a yw'r llog yn gyfansawdd. Mae llog cyfansawdd ar gynilion yn golygu bod llog yn cael ei dalu ar y swm gwreiddiol a gaiff ei gynilo **ac** unrhyw log sydd eisoes wedi'i dalu. Gweler Taflen Waith WB7 - Mathemateg Arian - Llog Cyfanswadd am ragor o wybodaeth.

### AER (cynilo)

Mae'r Gyfradd Gyfatebol Flynyddol (AER) yn dangos canran y llog cyfansawdd a fyddai'n cael ei dalu ar eich cynilion **unwaith y flwyddyn** pe na bai chi'n tynnu arian o'r banc nac yn ychwanegu arian. AER yw'r gyfradd swyddogol ar gyfer cyfrifon cynilo, ac mae'n eich galluogi chi i gymharu cyfraddau'n deg.

Efallai y byddwch hefyd yn gweld cyfradd llog 'Gros' - bydd hon yn llai na'r AER gan nad yw'n dangos llog cyfansawdd, dim ond y gyfradd llog safonol a gewch ar gyfer y swm gwreiddiol y gwnaethoch chi ei gynilo.

### APR (benthycia)

Mae'r Gyfradd Canran Flynyddol (APR) yn dangos y ganran y byddai'n rhaid i chi dalu ar yr arian y byddwch yn ei fenthycia dros y cyfnod mae'n cymryd i chi dalu'r benthyciad llawn yn ôl. Mae hyn yn cael ei ddadansoddi yn ôl cyfradd y flwyddyn.

Mae APR yn cynnwys llog **ac** unrhyw ffioedd neu daliadau wedi'u hadio. Mae hyn yn golygu ei bod yn adlewyrchiad cywir o'r hyn y bydd y ddyled yn ei chostio i chi, ond mae'n golygu nad ydych yn gwybod faint o'r APR sy'n cynnwys llog, a faint ohono sy'n daliadau.

e.e. Mae'r APR ar ddau fenthyciad gwahanol yn 15%. Llog **Benthyciad A** yw 12% gyda thaliadau o 3%. Dim ond 9% yw llog **Benthyciad B**, ond mae taliadau o 6%. Er bod y cyfraddau llog yn wahanol iawn, mae'r benthyciadau'n costio'r un peth.

**AWGRYM** Os byddwch yn cynilo neu'n benthycia arian, chwiliwch am y cyfraddau llog gorau. Bydd angen i chi ystyried y gyfradd ganrannol yn ogystal â'r telerau ac amodau dan sylw. Bydd angen i chi hefyd ystyried a yw'r gyfradd yn sefydlog (yn aros yr un peth) neu'n amrywiol (yn symud i fyny ac i lawr yn dibynnu ar y 'gyfradd sylfaenol' a gaiff ei phennu gan Fanc Lloegr).

### Gweithgaredd

Edrychwch ar-lein neu ewch i gangen leol eich banc neu gymdeithas adeiladu. Ymchwiliwch i'r cyfrifon gwahanol sydd ar gael. Edrychwch ar y cyfraddau llog yn ogystal â'r telerau ac amodau.

- Pa gyfrif byddai orau i roi arian ynddo os byddwch am dynnu arian o'r banc yn rheolaidd?
- Pa un fyddai orau ar gyfer cadw arian rydych chi'n ei gynilo ar gyfer gwyliau?
- Cofiwch gymharu cyfrifon drwy ddefnyddio'r AER fel eich bod chi'n cymharu tebyg am debyg.